YR ATODLEN

Amodau

RHAN 3

Amodau eraill

Gostegu sŵn

Rheoli lefelau sŵn

29.—(1) Ni chaiff y lefelau sŵn ym mhob un o'r derbynyddion preswyl fod yn fwy na'r lefelau desibel ar yr amseroedd cyfatebol o'r dydd a amlinellir yn Nhabl 3.

Tabl 3

Derbynnydd	*Terfyn sŵn yn ystod y dydd (dB LAeq, 1awr)*	*Terfyn sŵn yn ystod y nos (dB LAeq, 1awr)*
Kingsland Road	54	39
Penrhyn Geiriol	43	42
Tyddyn-Uchaf	41	41

(2) Yn Nhabl 3—

(a) ystyr "yn ystod y dydd" yw 7:00 i 22:59, a

(b) ystyr "yn ystod y nos" yw 23:00 i 6:59.

Segura

30. Ni chaiff injan cerbyd segura pan fo'r cerbyd yn llonydd am fwy na 5 munud.

Cymeradwyaeth berthnasol ar gyfer gweithgaredd newydd

31.—(1) Pan gynigir cynnal gweithgaredd newydd ar y tir rhaid i'r datblygwr gyflwyno astudiaeth sŵn i'r awdurdod cynllunio lleol a chael cymeradwyaeth berthnasol cyn y caiff y gweithgaredd newydd gychwyn.

(2) Rhaid i'r astudiaeth sŵn amlinellu a fydd y gweithgaredd newydd yn peri newid negyddol i gymeriad acwstig yr allbwn sŵn o'r tir.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "gweithgaredd newydd" yw—

(a) codi adeilad newydd,

(b) ychwanegu arwyneb caled newydd,

(c) ychwanegu cyfarpar neu beiriannau newydd, neu

(d) pan fo adeilad neu arwyneb caled presennol i'w ddefnyddio at ddiben gwahanol,

pan fo'r rhain wedi digwydd ar ôl cael y gymeradwyaeth berthnasol sy'n ofynnol gan baragraff 17(2).

(4) Yn is-baragraff (2), mae newid i gymeriad acwstig yn cynnwys cynnydd o ran—

(a) sŵn amledd isel;

(b) sŵn tonaidd;

(c) ysbeidiolrwydd sŵn.

Rheoli gwastraff a draenio

32.—(1) Cyn i unrhyw adeilad newydd, adeilad a ddefnyddir at ddibenion gwahanol, neu ardal o arwyneb caled gael ei feddiannu neu ei meddiannu am y tro cyntaf, neu ei ddefnyddio neu ei defnyddio am y tro cyntaf, at unrhyw ddiben a ganiateir gan erthygl 3(1)(a)(i) rhaid iddo neu iddi fod yn gysylltiedig â'r system ddraenio briodol.

(2) Yn is-baragraff (1), ystyr y "system ddraenio briodol" yw'r system ym mharagraff 18 sy'n gymwys i'r elfen newydd.